O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

**2013 Rhif 1701 (Cy. 165)**

# PRIFFYRDD, CYMRU

# Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012 2013

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Offeryn Cadarnhau hwn yn cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012, a wnaed gan Gyngor Gwynedd ar 10 Hydref 2012. Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer adeiladu pont geffylau dros Afon Dysynni, o Sandilands Road, Tywyn i Donfannau, Gwynedd.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 1701 (Cy. 165)

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *8 Gorffennaf 2013* |
| *Yn dod i rym* | *25 Gorffennaf 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud yr offeryn hwn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980[(1)].

**Enwi**

**1**. Enw'r offeryn hwn yw Offeryn Cadarnhau Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012 2013.

**Cadarnhau'r Cynllun**

**2.** Drwy hyn, mae Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012 (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cynllun") wedi ei gadarnhau heb ei addasu.

**Y Cynllun**

**3.** Mae'r Cynllun fel y'i cadarnhawyd wedi ei nodi yn yr Atodlen i'r offeryn hwn ac mae copïau o'r Cynllun ynghyd â'r planiau sy'n mynd gydag ef wedi eu hadneuo yn Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac yn swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH.

[(1)] 1980 p.66. Mae'r pwerau hyn yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf

Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**Cychwyn**

**4.** Daw'r Cynllun yn weithredol ar y dyddiad pan gyhoeddir gyntaf, yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Priffyrdd 1980, hysbysiad ei fod wedi ei gadarnhau.

**SHEENA HAGUE**
Dirprwy Gyfarwyddwr
Is-adran Rheoli'r Rhwydwaith, Trafnidiaeth o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth,
un o Weinidogion Cymru

8 Gorffennaf 2013

**YR ATODLEN I**
**OFFERYN CADARNHAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD (ADEILADU PONT TONFANNAU) 2012 2013**

**Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012**

Mae Cyngor Gwynedd (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "y Cyngor") yn gwneud y Cynllun hwn drwy arfer ei bwerau o dan adran 106(3) o Ddeddf Priffyrdd 1980 a phob pŵer arall sy'n ei alluogi i wneud hynny.

1. Mae'r Cyngor wedi ei awdurdodi i adeiladu, dros ddyfroedd mordwyol Afon Dysynni, y bont geffylau a bennir yn yr Atodlen i'r Cynllun, fel rhan o'r briffordd y mae'n bwriadu ei hadeiladu o Sandilands Road, Tywyn i Donfannau yn sir Gwynedd.

2. Enw'r Cynllun yw Cynllun Cyngor Gwynedd (Adeiladu Pont Tonfannau) 2012.

**YR ATODLEN I'R CYNLLUN**

**PLANIAU A MANYLEB PONT GEFFYLAU PONT TONFANNAU**

Dangosir lleoliad a dyluniad cyffredinol y bont ar y planiau sydd wedi eu rhifo 1042/GA Rev A ac sydd wedi eu marcio "Pont Tonfannau". Mae'r bont yn ymgorffori llwybr ceffylau/ffordd i gerti, llwybr troed a llwybr beiciau.

**Pwyntiau dechrau a diwedd**

O bwynt ar Lan Ogleddol Aber Afon Dysynni, sydd â'r cyfesurynnau 256661Dn, 302898G hyd at bwynt ar y Lan Ddeheuol, sydd â'r cyfesurynnau 256687Dn, 302944G. Cyfeirnod Map yr Arolwg Ordnans yw SH50DDdn. Bydd y bont fwy neu lai ar safle hen Bont Feili'r Fyddin a ddymchwelwyd ddiwedd y 70au/ddechrau'r 80au.

**Bwâu**

Bydd y bont yn cynnwys un bwa o 49.750 o fetrau.

**Lled**

Mae'r dec yn 3.5 metr o led o'r naill ben i'r llall.

**Lle o dan y bont**

Yn seiliedig ar farc dŵr uchel cymedrig ar lanw mawr, sydd tua 1.8 metr uwchben datwm ordnans, mae tua 2.31 metr o le rhwng y dŵr a'r bont ger ategwaith y bont i'r de a'r gogledd a 2.64 metr ger canol y bont.

**Dyfrffordd – Aber Afon Dysynni**

Mae'r brif sianel fordwyol wrth y bont tua 40.52 o fetrau o led. Mae'r afon yn lledu'n sylweddol i fyny'r afon ac i lawr yr afon gan fod sarnau ar ddau ben y bont sy'n culhau sianel yr afon. Bydd y sarnau presennol yn aros ond ni chânt eu hestyn, fel bod y ddyfrffordd yn aros yr un fath.

Rhoddwyd o dan sêl gyffredin y Cyngor ar y 10fed diwrnod o fis Hydref 2012.

Gosodwyd yma SÊL GYFFREDIN y CYNGOR
ym mhresenoldeb

Llofnodydd Awdurdodedig